

<u>Yn Bresennol</u>	
Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Paul Orders Sarah McGill Fiona Kinghorn Keith Meredith Tim Morgan Mark Brace Hannah Williams Jo Salway Caroline Drayton	Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) Cadeirydd Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, (BIP CaF) Prif Weithredwr, CC Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru Pennaeth Uned Gyflenwi Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, Llywodraeth Cymru Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru
Ymddiheuriadau: Len Richards Huw Jakeway Stephen Jones Wendy Gunney Abigail Harris Michael Evans Sheila Hendrickson-Brown	Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro Prif Swyddog Tân, GTADC Prif Uwch-arolygydd Heddlu De Cymru Prif Uwch-arolygydd Dros Dro, Heddlu De Cymru Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro) Pennaeth Gweithrediadau De Cymru Canolog, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Prif Swyddog Gweithredol, C3SC
Hefyd yn bresennol: Gareth Newell Sian Sanders Nathan Swain Clive Bailey	Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau, CC Rheolwr Gweithredol Diogelwch Cymunedol, Cydlyniant ac Ymgysylltu, CC Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC Swyddog Polisi a Phartneriaethau, CC

Rhif	Eitem Agenda	
1 / 2	<p>Croeso a Chyflwyniadau</p> <p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod ar 12 Mai 2020. Nodwyd bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.</p>	
3.	<p>Olrhain Cysylltiadau</p> <p>Rhoddodd Fiona Kinghorn y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y sefyllfa strategol genedlaethol ar gyfer olrhain cysylltiadau COVID 19. Amlinellodd Sarah McGill y system Profi, Olrhain, Diogelu sydd wedi'i sefydlu yng Nghaerdydd, a fydd yn mynd yn fyw ar 1 Mehefin. Bydd y profion cychwynnol yn rhoi blaenoriaeth i breswylwyr a staff cartrefi gofal a hosteli, a gweithwyr allweddol. Rhagwelir gwasanaeth ehangach ar 8 Mehefin yn unol â'r system genedlaethol.</p> <p>Mae sefydlu'r gwasanaeth yn dyst i'r lefelau o weithio mewn partneriaeth sy'n digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>Bydd data lleol a rhanbarthol amser real ar gael. Bydd Gweithgor Gwylidwriaeth a Pherfformiad ar waith i adolygu data y gellid ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau cloi lleol.</p> <p>Eglurwyd bod y rhai sy'n profi symptomau negyddol ond sy'n dangos symptomau COVID yn cael eu cynghori i ynysu.</p>	
4.	<p>Canllawiau Diogelwch Cymunedol a Diogelu</p> <p>Amlinellodd Sarah McGill gynnig ar gyfer diogelwch cymunedol dros dro a diogelu trefniadau llywodraethu mewn ymateb i'r argyfwng. Bydd y grŵp Partneriaeth Diogelwch a Diogelu Cymunedol yn cyfarfod bob pythefnos nes bydd rhybudd pellach i gefnogi cynllunio a darparu adferiad COVID-19.</p> <p>Cytunwyd:</p> <p>Cymeradwywyd cynigion y Grŵp Partneriaeth Diogelwch a Diogelu Cymunedol gan y BGC.</p> <p>Bydd ailgynnull y Bwrdd Arwain Diogelwch Cymunedol hefyd yn cael ei ystyried.</p> <p>Amlinellodd yr Arweinydd hefyd gynlluniau ar gyfer diwygio'r Gwasanaeth Troseddau Ieuentid.</p> <p>Cam Gweithredu:</p> <p>Cynigion y Gwasanaeth Troseddau Ieuentid i'w cyflwyno i gyfarfod nesaf y BGC ar gyfer eu cytuno.</p>	Ysgrifenyddiaeth

Rhif	Eitem Agenda	
5.	<p>Ailgychwyn ac Adfer</p> <p>Rhoddodd aelodau'r Bwrdd amlinelliad o gynlluniau gweithredol eu sefydliad ar gyfer llacio'r cyfyngiadau cloi. Pwysleisiwyd na ddylid colli'r trawsnewid i arferion gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod cloi (yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol a digartrefedd).</p> <p>Talodd Charles Janczewski (Cadeirydd Dros Dro Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) teyrnged i ddau aelod o staff a gollodd eu bywydau i COVID yn ystod yr wythnos ddiwethaf.</p> <p>Wrth i'r cyfyngiadau cloi leddfu, tynnwyd sylw at y ffaith bod disgwyl i'r galw am wasanaethau cymorth i ddiodefwrwr cam-drin domestig i oedolion a plant ollwng.</p> <p>Cadarnhaodd CNC na fydd meysydd parcio y maent yn eu gweithredu yn cael eu hailagor am y penwythnos, a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu ddydd Mercher 3 Mehefin.</p>	
	<p>Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:</p> <p>Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y BGC yn cael ei drefnu i gyd-fynd â chyhoeddiadau nesaf Llywodraeth Cymru ar y cyfyngiadau symud (19 Mehefin 2020)</p> <ul style="list-style-type: none"> • BGC Caerdydd i'w gadarnhau • BGC Caerdydd 14 Gorffennaf 2020 	